# Ysgol Bryn Onnen
# Polisi Adborth, Marcio ac Ymateb i Waith Dysgwyr

## "Gofal am ddysgu, dysgu am ofal"

Credwn y dylai canlyniadau marcio gael effaith amlwg ar gynnydd dysgwyr. Dylai roi darlun clir i ddysgwyr o'r hyn y maent wedi'i wneud yn dda a ble mae angen iddynt wella. Dylai galluogi dysgwyr i fod yn ddysgwyr annibynnol a'u helpu i gau'r bwlch rhwng eu perfformiad presennol a'r camau nesaf yn eu dysgu.

Bydd marcio effeithiol yn:

- darparu adborth rheolaidd o safon i ddisgyblion;
- gyson ac yn unol â pholisi'r ysgol;
- canolbwyntio'r ymateb at yr Amcanion Dysgu / Nod y wers sydd wedi eu rhannu gyda'r dysgwyr yn flaenorol a hefyd cyfeirio at gyrhaeddiad blaenorol o fewn cyd-destun yr amcan dysgu / nod y wers
- gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant;
- cael ei ddefnyddio fel Asesu ar gyfer Dysgu;
- darparu strategaeth glir ar gyfer gwella;
- cymryd ymagwedd positif gan roi cydnabyddiaeth a chlod priodol am gyrhaeddiad
- cefnogi dysgwyr wrth gau'r bwlch rhwng yr hyn y gallent ei wneud a'r hyn yr ydym eisiau iddynt allu ei wneud;
- galluogi athrawon i addasu cynllunio yn y dyfodol a gosod targedau;
- caniatáu amser i ddysgwyr ddarllen a deall y gwelliannau sydd eu hangen;
- annog a dysgu dysgwyr i hunanfarcio lle bo'n briodol.
- codi hunan-barch dysgwyr;

· addas ar gyfer oed y dysgwr;

· defnyddio côdau cyson drwy'r ysgol.

Mae'n bwysig, ble mae'n ymarferol, fod yr athro/athrawes yn marcio gwaith ym mhresenoldeb y dysgwr, fel ei fod yn derbyn canmoliaeth neu'n cael eglurhad am unrhyw waith nad yw wedi ei lwyr feistroli. Mae'r nifer o blant sydd mewn dosbarth yn gwneud hyn yn dasg anymarferol ar adegau, ond, er hyn mae modd i athrawon farcio fesul grwp. Os hynny, rhaid sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar bob grwp dros gyfnod penodol.

Os nad yw'r gwaith yn cael ei farcio ym mhresenoldeb y dysgwr, mae'n bwysig caniatáu amser i'r dysgwr ddarllen a deall y gwelliannau sydd eu hangen.

**<u>Sut rydyn ni'n ymateb i waith dysgwyr?</u>**

Yn Ysgol Bryn Onnen bydd **staff addysgu a chynorthwyol** yn marcio drwy ddefnyddio beiro **DU**. Dylai'r athro fod yn hollol glir o'i ddisgwyliadau wrth farcio darn o waith h.y yn berthnasol i'r amcan dysgu / nod y wers. Dylai sillafu esgeulus e.e geiriau allweddol, atalnodi a gramadeg sydd yn berthnasol i oed a gallu'r dysgwr gael eu marcio ym mhob darn o waith. Rhoddir adborth i'r darnau hynny y gofynwyd i'r dysgwyr ganolbwyntio arnynt. Mi fydd hyn yn golygu y bydd darnau o'r gwaith heb gael eu marcio, ond dros amser mi fyddent yn cael sylw.

Dylai'r disgybl cymryd rhan yn y broses o farcio drwy hunan-asesu'r gwaith ei hun a gwirio'i waith cyn ei gyflwyno i'r staff addysgu a chynorthwyol. Arf pwerus hefyd yw asesu cymheiriaid. Dylid darparu cyfleodd cyson i ddisgyblion weithio mewn parau gan ddarllen gwaith ei gilydd a thrafod pa gywiro sy'n angenrheidiol cyn cyflwyno'r gwaith i'w farcio. Dylai plant marcio neu cywiro eu gwaith gan ddefnyddio pen gwyrdd.

Mae'n bwysig ein bod yn tynnu sylw at agweddau o'r gwaith yn bwrpasol ac mewn ffordd bositif wrth farcio i ddangos i'r disgyblion:
• beth sydd yn dda ynglyn â'r gwaith;
• sut y gall wella'r waith;
• y ffordd orau ymlaen er mwyn datblygu ei sgiliau fwyfwy.
Mae'n bwysig hefyd ein bod yn tynnu sylw'r disgybl at ein sylwadau neu ein ymholiadau pellach ac yn sicrhau ei fod/ei bod yn ymateb

iddynt e.e. drwy wella'r ysgrifennu / ymestyn yr ysgrifennu drwy ateb cwestiwn ag ofynwyd iddo/iddi a thrwy ymarfer geiriau a sillafwyd yn anghywir. Mae'n hollol bwysig bod y disgyblion yn deall yr hyn rydym ni yn nodi neu'n uwcholeuo ar eu gwaith neu ni fyddent yn gwybod sut i symud ymlaen.

Lle bo'n briodol, dylid nodi'r lefel o gymorth a rhoddir i'r disgybl. Defnyddiwn y codau canlynol:

- @ = Annibynnol
- g.y.o.g = Gyda Ychydig O Gymorth
- g.ll.o.g = Gyda Llawe O Gymorth

## Adborth ar lafar

Mae'n bwysig i bob dysgwr (yn enwedig dysgwyr ifanc a rhai gydag ADY) gael adborth ar lafar oddi wrth yr oedolyn sy'n gweithio gyda hwy. Yn gyntaf, dylai'r oedolyn siarad am sut mae'r dysgwr wedi cyrraedd yr amcan dysgu / nod y wers ac wedyn cwestiynnu'r dysgwr am ddarn penodol yn y gwaith. Gall hyn gywiro dealltwriaeth y dysgwr neu ymestyn ei ddysgu. Gellir nodi ar waith y dysgwr bod yr athro wedi rhoi adborth ar lafar gan rhoi "ll" mewn cylch ar bwys y gwaith a'i lofnodi.

## Adborth/Marcio Crynodol

Pan fydd y tasgau yn cynnwys cwestiynau ble mae'r atebion yn gywir neu'n anghywir (tasgiau caeedig), byddant yn uwcholeuo'n binc (pinc perffaith) ar gyfer atebion cywir ac uwcholeuo'n gwyrdd (gwyrdd gwella) ar gyfer gwaith anghywir. Os yw pob cwestiwn yn anghywir, ni ddylai'r athro roi uwcholeuo ar bwys pob un ond dylen nhw ysgrifennu sylwad SENSITIF ar y gwaith er mwyn tynnu sylw'r dysgwr at y camgymeriadau. Wrth ymateb i gamffurfio rhifau / llythrennau, uwcholeuo'r elfen o'r rhifau / llythrennau sydd wedi cael eu ffurfio yn anghywir.

**Adborth/Marcio Ffurfiannol**

Nid yw'n ymarferol i farcio pob darn o waith yn fanwl ond mae angen marcio pob darn ymestynnol yn fanwl.
Os yn bosib, mae'r dysgwyr yn ysgrifennu amcan y dysgu / nod y wers (N.Y.W) ar eu gwaith – neu mae'r athro yn ei nodi ar y taflen NYW / MPLL yn llyfr y dysgwr - ac mae'r dysgwr yn rhoi dic wrth ymyl y M.P.Ll os yw'r dysgwr yn cyrraedd y nôd. Yng Ngham Cynnydd 3 mi fydd cyfodion yn asesu llwyddiant tuag at y MPLL.

Rydyn ni'n defnyddio gwaith ysgrifenedig dysgwyr fel Asesu ar Gyfer Dysgu h.y. asesu deiagnostig. Yn y lle cyntaf, mae athrawon yn canolbwyntio ar yr amcan dysgu / nod y wers ac ar feini prawf llwyddiant y dasg. Mae'r marcio yn amlygu cyrhaeddiad ac mae'n dangos dilyniant yn erbyn meini prawf llwyddiant y dasg. Mae'n bwysig hefyd rhoi amser i ddysgwyr ymateb i'w gwaith yn ystod y wers ddilynol. Mae'n bwysig cydnabod ymateb y dysgwyr gyda thic neu wirio os yn anghywir o hyd.

Mae'n bwysig rhoi sylwad i bob dysgwr i gau'r bwlch.

**Hunan-farcio**

Dylai dysgwyr hunan-farcio yn gyson. Gall dysgwyr adnabod eu llwyddiannau a chwilio am ffyrdd i wella. Gall y plenari ffocysu ar y broses hon fel ffordd o ddadansoddi'r dysgu. Bydd hyn yn darparu cyfle i ddisgyblion rhoi enghriefftiau o'r gwaith wrth ymyl y Meini Prawf Llwyddiant.

**Marcio mewn parau**

Mae'n bwysig ar adegau cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymateb i waith eu cyfoedion. Mae angen modelu'r broses gyda'r dysgwyr YN GYNTAF a sicrhau ei fod e'n ddeialog adeiladol rhwng y dysgwyr, e.e. 'Rydw i'n hoffi'r rhan yma oherwydd mae'n dangos sut mae'r cymeriad yn teimlo. Beth yw dy farn di?'

**<u>Côd Marcio</u>**

Dylid ei harddangos tu fewn i glawr llyfr y dysgwr.

| Cod y Marcio | Beth mae hyn yn dweud wrthaf... |
|---|---|
|   | Rwyt ti wedi gwneud rhywbeth yn dda iawn. Mae'r uwcholeuydd pinc yn dangos yn union ble mae'r darnau hynny. |
|   | Wwwps! Rwyt ti wedi gwneud camgymeriad. Edrycha eto a chywira hyn gyda dy ben gwyrdd. |
| ^ | Darllena hyn eto; mae gair ar goll yma. |
| // | Mae angen paragraff newydd yma. |

- Cadwa dy lyfr yn dwt ac yn daclus.
- Ysgrifenna gyda dy lawysgrifen fwyaf taclus ar gyfer pob tasg. Paid â gwasraffu lle yn dy lyfr.
- Croesa allan unrhyw gamgymeriad gydag un llinell a phren mesur.
- Dylai diagramau, graffiau a thablau gael eu llunio gyda phensil a phren mesur.
- Defnyddia ben glas neu bensil er mwyn ysgrifennu'r darn o waith.
- Bydd yr athro neu athrawes yn defnyddio **pen du** er mwyn marcio'r gwaith.
- Defnyddia ben gwyrdd er mwyn gwella gwaith neu wneud sylwad ar waith cyfaill.